DP 1099/07-11 - Welsh version

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rhodri Morgan AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister for Wales**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref your ref
Ein cyf/Our ref our ref

Nicholas Bourne AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

DD/MM/YY

Cytunais i ysgrifennu atoch yn dilyn Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 15 Ebrill 2008 pan dynnoch sylw at ein targedau o ran tlodi tanwydd.

Fel y gwyddoch, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, rydym wedi ymrwymo i ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018. Dyma ein hymrwymiad o hyd ond, o gofio'r cynnydd diweddar yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu heffeithio gan dlodi tanwydd oherwydd y cynnydd mewn prisiau tanwydd, does dim dwywaith nad yw hyn yn gryn her.

Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi cyhoeddi eisoes y bydd hi, fel rhan o'r gwaith ynglŷn â datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer effeithlonrwydd ac arbedion ynni, yn bwrw golwg dros ein Strategaeth ar gyfer Tlodi Tanwydd a swyddogaeth ein Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref wrth helpu i leddfu tlodi ynni. Rydym hefyd yn cael ein calonogi gan raglenni cymhorthdal newydd cyflenwyr ynni sy'n deillio o'r CERT (sef y Targed ar gyfer Lleihau Allyriadau Carbon) a fydd yn cynyddu'n sylweddol y cymorth ariannol sydd ar gael i berchnogion tai er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill ynghylch dylanwadu ar y ffactorau allweddol eraill, nad yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu datganoli ond sy'n effeithio ar dlodi tanwydd: prisiau tanwydd a lefelau incwm. Ynghyd â Gweinidogion y DU, Gweinidogion o weinyddiaethau datganoledig eraill a chynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol eraill, aeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i Uwchgynhadledd ar Dlodi Ynni a gynhaliwyd gan Ofgen yn ddiweddar ar 23 Ebrill. Mae Ofgen wedi cyhoeddi eisoes y bydd adolygiad o farchnadoedd cyflenwi ynni. Yn ogystal â chynyddu maint y Taliad Tanwydd Gaeaf eleni, ymrwymodd Llywodraeth y DU yn y Gyllideb i weithredu ar dariffau cymdeithasol a metrau lle mae angen talu ymlaen llaw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
rhodri.morgan@wales.gsi.gov.uk